

**Cofnodion 'heb eu cadarnhau' o gyfarfod 'mewn pwyllgor' o
Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM)
ar 29 Gorffennaf 2021**

Yn bresennol

Marcus Longley	Aelod Annibynnol / Cadeirydd
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol / Is-gadeirydd
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Dom Hurford	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Dros dro)
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Erail yn y cyfarfod:

Julie Denley	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes y Bwrdd (ysgrifennydd)

**Rhif yr
eitem ar yr
agenda**

1.1

Croeso

Croesawodd Marcus Longley bawb i'r cyfarfod 'mewn pwyllgor' o'r Bwrdd Iechyd.

1.2

Ymddiheuriadau am absenoldeb

NODWYD ymddiheuriadau gan Keiron Montague, Aelod Annibynnol; Phil White, Aelod Annibynnol; Gareth Robinson, Prif Swyddog Gweithredu (Dros dro); Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio; Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Georgina Galletly, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

1.3

Datganiadau o fuddiannau

Ni fu unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2

PRIF AGENDA

2.1

Adroddiad Diweddarau Tŷ Llidiard Grŵp Lleoliad Integredig Pen-y-bont ar Ogwr

Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion ansawdd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig ag Uned Tŷ Llidiard, a chafodd y Bwrdd sicrwydd yn erbyn yr argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a godwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC).

Yn ogystal â hynny, tynnodd y diweddariad sylw at y newid yn y statws uwchgyfeirio a neilltuwyd gan PGIAC i Dŷ Llidiard (a symudodd o lefel 3 i lefel 4 yn dilyn pryderon diweddar) a'r camau a roddwyd ar waith yn hyn o beth. Nodwyd y cynnydd yn y statws uwchgyfeirio hefyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 29 Gorffennaf 2021.

Yn dilyn trafodaeth, er mwyn hybu'r gwaith o fonitro a goruchwylio'r agenda gymhleth hon, nodwyd bod y grŵp gwasanaeth clinigol wedi datblygu cynllun gwella cyffredinol gan gynnwys argymhellion a wnaed gan PGIAC, yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol a'r argymhellion ynglŷn â digwyddiadau difrifol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r rhain hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu cyffredinol sydd ar waith i fynd i'r afael â statws ymyrraeth wedi ei thargedu BIP CTM.

Gofynnodd y Cadeirydd i gael diolch i Ana Llewellyn, Cyfarwyddwr Nyrsys Lleoliad Integredig Pen-y-bont ar Ogwr, am ei hadroddiad a diolchodd hefyd i Julie Denley am gyflwyno'r materion allweddol ar ei rhan.

PENDERFYNIAD:

NODODD y Bwrdd yr adroddiad.

3.

Unrhyw faterion eraill

Ni fu unrhyw faterion pellach, felly daeth y cyfarfod i ben.